

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 9 Chwefror 2022

Rhif Union: 01824712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 15 CHWFROR 2022 am 10.00 am TRWY CYFRWNG FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 18 Ionawr 2022 (copi ynghlwm).

### 5 STRATEGAETH Y RHAGLEN CYMORTH TAI (Tudalennau 17 - 54)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) yn ceisio cytundeb y Cabinet i'r weledigaeth a chyfeiriad sydd wedi'u hamlinellu yn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai a chymeradwyo ei chyhoeddi.

**6 GWAHODDIAD I DENDRO'R GWASANAETH CYMORTH ASESU COF RHANBARTHOL - DYFARNU CONTRACTAU** (Tudalennau 55 - 88)

Ystyried adroddiad (**sy'n cynnwys atodiadau cyfrinachol**) gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu tri chontract yn dilyn cwblhau Gwahoddiad i Dendro ar gyfer y 'Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol'.

**7 CYNLLUN PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CAFFAEL TIR (RHYDD-DDALIADOL A LESDDALIADOL) I DDIBENION DAL A STORIO CARBON A GWELLIANNAU ECOLEGOL** (Tudalennau 89 - 134)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau a'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynllun penderfyniadau dirprwyedig newydd ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol/lesddaliadol) i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol.

**8 ADEILADAU'R FRENHINES, Y RHYL - CAIS AM GYLLID YCHWANEGOL** (Tudalennau 135 - 158)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol a'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am brosiect Adeiladau'r Frenhines, y Rhyl, a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer yr achos busnes wedi'i ddiweddarau a chyllid ychwanegol i ddarparu Cam 1.

**9 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL** (Tudalennau 159 - 166)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2022/23.

**10 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 167 - 184)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 185 - 188)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Huw Hilditch-Roberts  
Richard Mainon**

**Tony Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Brian Jones  
Mark Young**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned